EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANDUDOCH

Dydd Sadwrn, Mai 18ed, 2019

yng Nghanolfan Goffa Llandudoch

Eisteddfod leol am 11.30 a.m. Eisteddfod yr Ifanc am 1.00 p.m.
Eisteddfod yr Hwyr am 5.00 p.m.

Hefyd **Talwrn y Beirdd a Beirniadaethau Llên**
Nos Fercher, Mai 15ed am 7.30 p.m
yn Neuadd Ysgol Llandudoch
Meuryn – Y Prifardd Hywel Griffiths, Aberystwyth

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

Llywydd Anrhydeddus : Mrs Meinir Garnon James, Bryn Iwan

Beirniaid: *Cerdd*: Siân Meinir, Penarth; Trystan Lewis, Llandudno
Llefaru : Lowri Steffan, Aberystwyth
Llên: Y Prifardd Gruffydd Owen, Caerdydd

Cyfeilyddion: Gareth Wyn Thomas, Capel Hendre ac Angharad James, Llantwd

Ysgrifenyddion :
Melrose Thomas, Dychwelfa, Heol Finch, Llandudoch, SA43 3EA (01239 615196)
a Terwyn Tomos, Gwynfa, Heol Dewi, Llandudoch, SA43 3HT (01239 612928)
e-bost : Llandudoch@steddfota.org

Tâl Mynediad am y dydd : £1.00 (Plant Ysgol am ddim)

Bydd cyfieithu ar y pryd ar gael gydol yr Eisteddfod / Translation provided all day

Bydd lluniaeth ysgafn ar gael drwy'r dydd

Aelod o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru (www.steddfota.org)

Cyngor Sir Penfro - Pembrokeshire County Council

Prif Noddwyr Cystadlaethau Eisteddfod 2019

SIOP AC ORIEL
AWEN TEIFI

Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion. Hefyd, cardiau a recordiau.
Ar agor 9 – 5.30
Llun i Sadwrn

01239 621370

23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

Cware ac Olew
Trefigin

Yswiriant
Delwyn Griffiths
Sefydlwyd 1983

YSWIRIANT
at bob achlysur yn cynnwys:

BUSNES • CERBYDAU
CARTREFI • TEITHIO
ac yn y blaen

Gwasanaeth Personol
Premiwm Cystadleuol
Cyngor Diduedd

01239 615040

3 Heathfield, Pendre Aberteifi SA43 1JT

Awdurdodwyd a Rheolwyd
gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

O.C. Davies
Moduron Penparc
Dewis eang o gerbydau ail law o ansawdd da
Gallwn ddod o hyd i'r car iawn i chi – gallwn gael gafael ar 2,000 o gerbydau

Penparc, Aberteifi,
Ceredigion SA43 1SB
01239 622955

ocdavies.com

Motability

Yr Eisteddfod Leol am 11.30 a.m.

I blant o'r oedran priodol ar ddiwrnod yr eisteddfod o fewn dalgylch yr ysgolion cynradd canlynol : Aberporth, Aberteifi, Beulah, Cilgerran, Cenarth, Eglwyswrw, Llandudoch, Llechryd, Penparc.

Caiff yr eisteddfod ei hagor gan blant oed Meithrin a Derbyn Llandudoch

Cystadlaethau Llwyfan

1. Llefaru unigol oed Blwyddyn 2 ac iau. 1af: Cwpan; 2il : £3; 3ydd: £2
2. Unawd oed Blwyddyn 2 ac iau. 1af: Cwpan; 2il : £3; 3ydd: £2
3. Llefaru unigol Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4. 1af: Cwpan; 2il : £3; 3ydd: £2
4. Unawd Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4. 1af: Cwpan; 2il : £3; 3ydd: £2
5. Llefaru unigol Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6. 1af: Cwpan; 2il : £3; 3ydd: £2
6. Unawd Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6. 1af: Cwpan; 2il : £3; 3ydd: £2
7. Unawd Alaw Werin hyd at Blwyddyn 6. 1af: Cwpan; 2il : £3; 3ydd: £2
8. Grŵp llefaru hyd at Blwyddyn 6. 1af: Tarian a £15.00; 2il : £10.00
9. Parti/Côr hyd at blwyddyn 6. 1af: Tarian a £30.00
10. **Dyfernir Gwobr Her Nantypele (rhoddedig gan Pam a Norman High, Nantypele, Llandudoch) i'r perfformiad gorau gan unigolyn yn y cystadlaethau lleol ym marn y beirniaid llefaru a cherdd**.

Cystadlaethau cartref y plant (agored) - dyddiad cau: Ebrill 12fed, 2019

***Llenyddol** : Testunau'n agored*
Beirniad : Mrs Jen Sajko, Trefdraeth

11. Stori neu ddisgrifiad i blant hyd at Flwyddyn 2 (Llun a stori). 1af: £5; 2il : £3; 3ydd: £2
12. Stori neu ddisgrifiad i blant blynyddoedd 3 a 4. 1af: £5; 2il : £3; 3ydd: £2
13. Stori neu ddisgrifiad i blant blynyddoedd 5 a 6. 1af: £5; 2il : £3; 3ydd: £2
14. Barddoniaeth oed Cyfnod Sylfaen. 1af: £5; 2il : £3; 3ydd: £2
15. Barddoniaeth blynyddoedd 3 a 4. 1af: £5; 2il : £3; 3ydd: £2
16. Barddoniaeth blynyddoedd 5 a 6. 1af: £5; 2il : £3; 3ydd: £2
17. **Gwobr Her W.R.Smart i'r llenor mwyaf addawol yng nghystadlaethau 11-16**

***Celf** : Darlun mewn unrhyw gyfrwng. Testun : Agored*
Beirniad : Anne Cakebread, Oriel Milgi, Llandudoch
(Noddir y cystadlaethau celf gan siop Mundos, Pendre, Aberteifi)

18. Oed meithrin neu dderbyn. 1af: £5; 2il : £3; 3ydd: £2
19. Blwyddyn 1 a 2. 1af: £5; 2il : £3; 3ydd: £2
20. Blwyddyn 3 a 4. 1af: £5; 2il : £3; 3ydd: £2
21. Blwyddyn 5 a 6. 1af: £5; 2il : £3; 3ydd: £2

22. Anghenion Addysgol Arbennig(Cymedrol/Difrifol)dan12. 1af: £5; 2il : £3; 3ydd: £2
23. Ffotograffiaeth : Blwyddyn 6 ac iau. (Un llun). 1af: £5; 2il : £3; 3ydd: £2
24. **Tlws Coffa Kenneth Mower i'r arlunydd mwyaf addawol yng nghystadlaethau 18-23**

Eisteddfod yr Ifanc am 1.00 p.m.

Cystadlaethau agored oed cynradd

25. Llefaru unigol dosbarth derbyn neu iau. 1af: Cwpan; 2il : £3; 3ydd: £2
26. Unawd oed dosbarth derbyn neu iau. 1af: Cwpan; 2il : £3; 3ydd: £2
27. Llefaru unigol Blwyddyn 1 a 2. 1af: Cwpan; 2il : £3; 3ydd: £2
28. Unawd Blwyddyn 1 a 2. 1af: Cwpan; 2il : £3; 3ydd: £2
29. **Gwobr Her Calon Ifanc Llandudoch i'r perfformiad llwyfan unigol gorau yn yr holl gystadlaethau hyd at Flwyddyn 2**
30. Llefaru unigol Blwyddyn 3 a 4. 1af: Cwpan; 2il : £3; 3ydd: £2
31. Unawd Blwyddyn 3 a 4. 1af: Cwpan; 2il : £3; 3ydd: £2
32. Llefaru unigol Blwyddyn 5 a 6. 1af: Cwpan; 2il : £3; 3ydd: £2
33. Unawd Blwyddyn 5 a 6. 1af: Cwpan; 2il : £3; 3ydd: £2
34. Unawd Alaw Werin hyd at flwyddyn 6. 1af: Cwpan; 2il : £3; 3ydd: £2
35. Canu emyn hyd at flwyddyn 6. 1af: Cwpan; 2il : £3; 3ydd: £2
36. Unawd Cerdd Dant hyd at flwyddyn 6. 1af: Cwpan; 2il : £3; 3ydd: £2
37. Unawd piano hyd at flwyddyn 6. 1af: 1af: Cwpan; 2il : £3; 3ydd: £2
38. Unawd unrhyw offeryn cerdd (eithrio'r piano) hyd at flwyddyn 6. 1af: Cwpan; 2il : £3; 3ydd: £2
39. **Gwobr Her Iwan a Sian Davies, Isfryn, ac £20 yn rhoddedig gan y teulu, i'r perfformiad llwyfan unigol gorau yn y cystadlaethau o oed Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6.**
40. Deuawd hyd at flwyddyn 6. 1af: £12; 2il: £8; 3ydd: £4.

Cystadlaethau oed Uwchradd a than 26 oed.

Noddir cystadlaethau 41 – 46 gan O.C.Davies a'i Fab, Moduron Penparc, Penparc, Aberteifi.

41. Llefaru unigol dan 16 oed. 1af: £10; 2il: £5, 3ydd:£3
42. Unawd oed dan 16 oed. (Cwpan Her Miss Mair Evans) . 1af: £10; 2il: £5, 3ydd:£3
43. Unawd Alaw Werin dan 16 oed. 1af: £10; 2il: £5, 3ydd:£3
44. Canu Emyn dan 16 0ed. 1af: £10; 2il: £5, 3ydd:£3
45. Unawd piano dan 16 oed. 1af: £10; 2il: £5, 3ydd:£3

46. Unawd unrhyw offeryn cerdd ac eithrio'r piano dan 16. 1af: £10; 2il: £5, 3ydd:£3
47. **Gwobr Arbennig Merched y Wawr Llandudoch i'r perfformiad llwyfan gorau gan unigolyn yn y cystadlaethau oed Uwchradd dan 16 oed ym marn y beirniaid cerdd a llefaru**

48. Llefaru unigol 16 a than 19 oed. 1af: £30; 2il £20; 3ydd : £10
49. Unawd 16 a than 19 oed. 1af: Cwpan Her Rhiannon Lewis, Llanbedr PS a £30; 2il £20; 3ydd : £10
50. Llefaru unigol 19 a than 26 oed : 1af: £30; 2il £20; 3ydd : £10
51. Unawd 19 a than 26 oed : 1af: £30; 2il £20; 3ydd : £10
52. Unawd Alaw Werin 16 a than 26 oed . 1af: £20; 2il £15
53. Unawd Piano 16 a than 26 oed. 1af: £20; 2il £15
54. Unawd unrhyw offeryn cerdd ac eithrio'r piano 16 a than 26 oed. 1af: £20; 2il £15
55. Deuawd 12 a than 26 oed. 1af: £30; 2il £20; 3ydd £10
56. Ymgom, deialog neu gyflwyniad llafar gan o leiaf dau berson na chymer mwy nac 8 munud i'w gyflwyno – unrhyw oed dan 26. 1af: £30; 2il £20; 3ydd: £10

Cystadlaethau Llenyddol yr Ifanc (Dyddiad cau : Ebrill 22ain, 2019)

57. Tlws Llenyddiaeth yr Ifanc i gystadleuwyr hyd at 21 oed : dau ddarn o lenyddiaeth greadigol ar unrhyw ffurf . Testun : agored. Gwobr : Tlws Llenyddiaeth yr Ifanc (i'w gadw am flwyddyn), tlws parhaol a £30

11 oed a than 16:

58. Darn o ryddiaith (e.e. stori, erthygl, deialog, blog) : Drws. 1af : £10.00
59. Darn o farddoniaeth ar unrhyw ffurf, ond dim mwy nac 20 llinell : Llwybrau. 1af : £10.00

16 a than 26 oed:

60. Darn o ryddiaith (e.e. stori, erthygl, deialog, blog) : Drws. 1af : £10.00
61. Darn o farddoniaeth ar unrhyw ffurf, ond dim mwy nac 20 llinell : Llwybrau. 1af : £10.00

Dyddiad cau cystadlaethau llenyddol yr ifanc yw Ebrill 22ain, 2019.
Anfonwch eich cynnyrch at
Mrs Melrose Thomas, Dychwelfa, Heol Finch, Llandudoch, Sir Benfro, SA43 3EA

SIOP SGLODION BOWEN

2, Stryd Fawr, Llandudoch

01239 613814

Blasus

a ffres

Premier

LLANDUDOCH

Siop y Pentref

Stryd Fawr, Llandudoch.

Oriau agor :

Llun i Iau	**: 8 a.m. – 9 p.m.**
Gwener/Sadwrn	**: 8a.m – 10 p.m.**
Dydd Sul	**: 8 a.m. – 8 p.m.**

01239 612087

FERRY INN

Llandudoch



perffaith ar gyfer cinio : perffaith i deuluoedd

01239 615172

e-bost : ferryinn@hotmail.co.uk

Eisteddfod yr Hwyr **i ddechrau am 5.00 p.m.**

Bydd Cystadleuaeth y Côr, yr Hen Ganiadau, seremoni'r cadeirio, a'r Her Unawd yn dilyn ei gilydd gan ddechrau am 7.30 p.m.

62. Ensemble lleisiol agored (rhwng 3 a 6 mewn nifer). Hunan-ddewisiad gyda chyfeiliant neu'n ddigyfeiliant. Geiriau Cymraeg. Perfformiad dim mwy na 4 munud. 1af : £50
63. Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru : Llefaru neu gyflwyno darn digri. Oed – agored. Gellir dewis barddoniaeth neu ryddiaith sydd eisioes wedi ei gyhoeddi, neu gellir cyflwyno darn gwreiddiol (rhestr o awgrymiadau ar wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru). Gwobr : 1af:£50 ; 2il: £25; 3ydd: £15
Byddai ennill gwobr (1af, 2il neu 3ydd) mewn 2 eisteddfod leol rhwng Eisteddfod Genedlaethol 2018 a diwedd Gorffennaf 2019 yn rhoi'r hawl i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol 2019, am wobrau o £100, £60 a £40 a chyfle i ennill Ysgoloriaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru, gwerth £1000, i dderbyn hyfforddiant pellach ym maes perfformio ar lwyfan eisteddfodol. Gweler amod rhif 11 isod.
64. Cân o unrhyw sioe gerdd (unawd, deuawd neu grŵp). 1af: £100 a Chwpan Her Parhaol Sheila Penrallt-y-Dre i'w gadw am flwyddyn. Mae'r cwpan yn rhoddedig gan ei ffrindiau er cof amdani; 2il: £50; 3ydd:£30.

Noddir Cystadleuaeth 65
gan Gwmni Yswiriant Delwyn Griffiths, Aberteifi

65. Canu emyn 12 a than 60 oed. 1af: £45; 2il: £30; 3ydd:£25
66. Darllen darn o'r ysgrythur ar y pryd. Gwobr : £15; 2il: £10; 3ydd: £5

Noddir Cystadleuaeth 67
gan Eiry a Tony Ladd Lewis, Trefdraeth

67. Cystadleuaeth lwyfan i ddysgwyr o Lefel Mynediad hyd at Lefel Uwch – darllen darn y cafwyd mis o amser i'w baratoi. Cysyllter â'r ysgrifennydd am gopi o'r darn. Gwobr : £15; 2il: £10; 3ydd: £5
68. Canu emyn dros 60 oed. 1af: £45; 2il: £30; 3ydd: £25

Noddir Cystadleuaeth 69
gan gwmni Cware ac Olew Trefigin, Eglwyswythwr, Aberteifi

69. Prif gystadleuaeth lefaru – cyflwyniad llafar neu ddramatig gan unigolyn, na chymer mwy na 7 munud. 1af: £100; 2il: £50; 3ydd: £30.
70. Cystadleuaeth Côr Llandudoch : Cyflwyno rhaglen amrywiol na chymer fwy na 12 munud i'w pherfformio. Bydd y gystadleuaeth ar y llwyfan tua 7.30 p.m. 1af: £300; 2il: £200; 3ydd: £100
71. Yr Hen Ganiadau – unrhyw unawd Gymreig. 1af: £100; 2il £50: 3ydd: £30
72. Her Unawd. 1af :£150; 2il: £75; 3ydd: £40; 4ydd: £20; 5ed: £15; 6ed: £10. (Noddir y gystadleuaeth gan Geraint a Siân Jones, Pontyglasier er cof am Eurwen a Halket Jones, Hawddamor, Llandudoch.)

Cystadlaethau Llenyddol Agored (Dyddiad Cau – Ebrill 22ain, 2019)

73. Cystadleuaeth y Gadair : Cerdd, neu gasgliad o gerddi, caeth neu rydd, hyd at 100 o linellau - 'Amser' **neu** 'Ogof'. Gwobr: Cadair fechan gywrain o waith ac yn rhoddedig gan Colin James, Dorchester a £75.00 (Rhoddedig gan y teulu er cof am W.R. Smart)

Noddir cystadlaethau 74 -82 gan
Siop ac Oriel AWEN TEIFI, Stryd Fawr, Aberteifi

74. Telyneg : Anrheg 1af : £15.00
75. Soned : Stori 1af : £15.00
76. Pedwar pennill telyn neu bedwar triban i bedwar aderyn. 1af : £15.00
77. Englyn : Baner 1af : £15.00
78. Cywydd hyd at 18 llinell yn seiliedig ar ddihareb Gymraeg. 1af: £15.00
79. Cerdd hyd at 30 llinell mewn cynghanedd: Newid 1af: £15.00
80. Limrig yn cynnwys y llinell : "Pan welais pwy oedd ar y llwyfan" 1af : £10.00
81. Cân ddigri hyd at 30 llinell : Y Dathliad 1af: £10.00
82. Stori fer yn ymwneud â'r thema 'Chwilio'. 1af : £15.00
83. Cystadleuaeth CLEBRAN (Papur Bro'r Preseli) – erthygl addas i'w chyhoeddi mewn papur bro. 1af : £25.00
84. Emyn o ddathliad. 1af: £15.00

Cystadlaethau i Ddysgwyr (Noddir gan Dysgu Cymraeg Sir Benfro)

Ysgrifennu darn : Fy Hoff Lun/Ffotograff

85. Lefel Mynediad (hyd at 150 o eiriau). 1af : £15.00
86. Lefel Sylfaen (hyd at 250 o eiriau. 1af : £15.00
87. Lefel Canolradd (hyd at 350 o eiriau). 1af : £15.00

88. Lefel Uwch a phrofiadol (500 gair neu fwy). 1af £15.00
89. Limrig yn cynnwys y llinell : “Fe es i un diwrnod i’r ffair.” 1af : £10

DALIER SYLW : Dyddiadau Cau

Cynnyrch llenyddol a gwaith celf y plant i fod yn llaw’r ysgrifennydd erbyn Ebrill 12fed, 2019: **Mr Terwyn Tomos, Gwynfa, Heol Dewi, Llandudoch** (Rhif ffôn : 01239 612928)

Cynnyrch y cystadlaethau llenyddol ieuenctid ac agored i fod yn nwylo’r ysgrifennydd Llên erbyn **Ebrill 22ain, 2019 – Mrs Melrose Thomas, Dychwelfa, Heol Finch, Llandudoch, Sir Benfro, SA43 3EA** .

Derbynnir cynnyrch trwy e-bost o’i anfon at llandudoch@steddfota.org **Cofiwch gynnwys enw a manylion cyswllt (ffôn neu gyfeiriad), os gwelwch yn dda.**

Rheolau ac Amodau

1. Bydd pob cystadleuydd yn ddarostyngedig i’r amodau hyn, ac i unrhyw amodau penodol a berthyn i unrhyw gystadleuaeth.
2. Cymraeg fydd iaith pob cystadleuaeth.
3. Y cystadleuwyr i fod yn y grŵp oedran priodol ar ddyddiad yr eisteddfod.
4. Ni chaniateir defnyddio’r un darn gan yr un cystadleuydd mewn mwy nag un gystadleuaeth.
5. Bydd gan y beirniaid yr hawl i atal, rhannu, neu i gwtogi gwobrau.
6. Rhaid i bob cystadleuydd ofalu am gopi i’r beirniaid a’r cyfeilydd.
7. Cystadleuwyr i ddod i’r blaen ar ddechrau cystadleuaeth. Cynhelir rhagbrawf os bydd angen.
8. Ni thraddodir beirniadaeth gyhoeddus ym mhob cystadleuaeth. Gall pob cystadleuydd ofyn am feirniadaeth ysgrifenedig, os yw’n dymuno.
9. Disgwylir i aelodau’r corau sy’n cystadlu dalu tâl mynediad o £1.00 y pen . Byddai’n hwyluso pethau pe bai modd gwneud hynny ymlaen llaw trwy anfon siec yn daladwy i ‘Eisteddfod Llandudoch’ at y trysorydd, Geraint Volk, Tynewydd Clawddcam, Llandudoch, Sir Benfro (01239 615962).
10. Bydd trefn y cystadlu yn dilyn trefn y rhaglen hon, oni nodir amser penodol ar gyfer cystadleuaeth.
11. **Amodau Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru:** Disgwylir i’r iaith fod yn weddus. Dylai’r pwyslais fod ar gyfleu hiwmor y darn a’i drosglwyddo i’r gynulleidfa. Caniateir defnyddio props os ydyw’n ychwanegu at y perfformiad. Perfformiad i gymryd dim mwy na 4 munud. Rhaid sicrhau copïau i’r beirniad

Noddwyr Eisteddfod Llandudoch 2018

Dymuna'r pwyllgor ddiolch o waelod calon i bawb a gyfrannodd arian, cwpanau a chefnogaeth ymarferol i'r eisteddfod. Mae llwyddiant a pharhad yr eisteddfod yn dibynnu'n drwm ar haelioni unigolion a chwmnïau, ac rydym yn ei werthfawrogi'n fawr iawn. *Archwiliwyd cyfrifon 2017/2018 gan D.M.B. Davies, Cyfrifydd, Aberteifi*

Cyngor Sir Penfro	£500
Colin James, Dorchester (Llywydd)	£150
Abbey Shakespeare Players	£150
Llenyddiaeth Cymru	£125
Ceri Wyn Jones	£120
Geraint a Shan Jones, Pontglasier	£100
John F Rees, Pantygalchfa	£100
Mr BS a Mrs GR Mark	£100
G M James	£100
Glebelands	£100
Diana, June a Dawn (er cof am eu tad, W.R. Smart)	£75
Teulu Briscwm	£50
Brodyr Richards	£50
Mr G Bazeley	£50
Terence a Rhiannon Lloyd	£50
Terwyn a Marged Tomos	£50
Tim a Helen, Foxhill	£50
Mair a Geraint Volk	£50
Siop Mundo's, Aberteifi	£50
Teulu Evans, Pantirion	£40
Cymdeithas Waldo	£40
Rhiannon Lewis, Llanbedr PS	£40
Eiry a Tony Ladd Lewis	£30
White Hart	£30
Eirwyn a Celia Evans	£30
Pam a Norman High	£25
Dai a Dilys Roberts	£25
CLEBRAN	£25
Cynthia Dray	£25
Dai a Jane Pugh	£25
Steve ac Angela Czech	£25
Barrie a Lynda Forster	£25
J M Kemsley, Penrhiw	£25
Vanya Constant	£20
Mair Garnon James	£20
Esther Davies, Brig yr Ewyn	£20
Mrs Muriel Davies, Aberteifi	£20

Gareth a Janet James, Tredrissi	£20
Llinos a Howard Devonald	£20
Mrs Margaret Lloyd	`£20
Siân ac Iwan Davies	£20
Ray Thomas	£20
Mary Higgins	£10
Teifion Jenkins	£10
Mrs G a Mr A P Wislocki	£10
Lorna Wynne	£10
Rhin Palmer	£10
Gareth Wyn Thomas	£10
Hysbysebwyr yn y Rhaglen	
OC Davies a'i fab	£100
Cware ac Olew Trefigin	£100
Awen Teifi	£100
Delwyn Griffiths	£100
BV Rees cyf	£125
Tafarn y Ferry	£120
Siop y Pentref	£30
Cwmni Dai Lewis	£60

Caiff y gwobrau i'r cystadlaethau llenyddol, ac eithrio cystadleuaeth y Gadair a Thlws Llenyddiaeth yr Ifanc, eu dyfarnu mewn

NOSON BEIRNIADAETHAU A THALWRN Y BEIRDD

am 7.30 pm, Nos Fercher, Mai 15ed 2019
yn Neuadd Ysgol Llandudoch

yng nghwmni'r Meuryn,

Y Prifardd Hywel Griffiths, Aberystwyth.

Mynediad £5.00 (yn cynnwys lluniaeth ysgafn)

B V Rees Cyf

Modurdy'r Abaty, Llandudoch, Aberteifi, SA43 3DX

01239 612025

Find us on Facebook

Bargeinion gwych ar Fiat

WWW.BVREES-FIAT.COM

SsangYong – Gwerth aruthrol

WWW.BVREES-SSANGYONG.COM

Y Faniau gorau ar gael

WWW.BVREES-FIAT.COM

PROFESSIONAL

Motability

The leading car scheme for disabled people

Dewis anferth o
foduron ansawdd, ail law